



Llywodraeth EF

# Cael help gan Dywedwch Wrthym Unwaith

Hawdd i'w  
Ddarllen



# Cynnwys

1

Dywedwch Wrthym  
Unwaith



Cyflwyniad

Tudalen 3

2



Am Dydedwch  
Wrthym Unwaith

Tudalen 5

3



Cyn i chi  
ddefnyddio Dywedwch  
Wrthym Unwaith

Tudalen 13

4



Defnyddio Dywedwch  
Wrthym Unwaith

Tudalen 18

# 1

## Cyflwyniad



Llywodraeth EF

Mae Dywedwch Wrthym Unwaith yn wasanaeth gan y llywodraeth.

**Dywedwch Wrthym  
Unwaith**



Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â'r Gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith a sut i'w ddefnyddio.



Mae Dywedwch Wrthym Unwaith yn eich helpu i adael i'r rhan fwyaf o adrannau'r llywodraeth a chynghorau lleol wybod pan fyddrhywun yn marw.



Mae Dywedwch Wrthym Unwaith am ddim i'w ddefnyddio.

## Ble rydych yn byw



I ddefnyddio'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith, mae angen i'r sawl a fu farw fyw yng Nghymru, Lloegr, neu'r Alban.



Gogledd Iwerddon

Nid yw'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith ar gael yng Ngogledd Iwerddon.

Am ragor o wybodaeth os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, ewch i [www.nidirect.gov.uk/articles/who-tell-about-death](http://www.nidirect.gov.uk/articles/who-tell-about-death)


# 2

## Dywedwch Wrthym Unwaith



Pan ddefnyddiwch Dywedwch Wrthym Unwaith, byddant yn eich helpu i roi gwybod i wahanol sefydliadau am bwy sydd wedi marw.

Bydd Dywedwch Wrthym Unwaith yn cysylltu â:



**Cyllid a Thollau EF (CThEF)**

Gallant ddiweddarau cofnodion budd-daliadau a Threth Personol.

**TAW**



Efallai bod y person a fu farw yn hunangyflogedig, neu'n berchen ar fusnes.

Nid yw Dywedwch Wrthym Unwaith yn delio â threthi busnes, fel TAW.

Mae angen i chi gysylltu â CThEF ar wahân.



## Adran Gwaith a Phensiynau

### Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

Gallant ganslo unrhyw fudd-daliadau DWP, pe bai'r unigolyn a fu farw yn eu cael.



### Swyddfa Pasbort

Gallant ganslo pasbortau Prydeinig os yw'r person a fu farw yn dal un.



## Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

### Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)

Gallant ganslo trwyddedau gyrru.





Gall y DVLA symud y person a fu farw o'i gofnodion, pe bai'n geidwad cerbyd.

Gallant hefyd ganslo treth ar gyfer eu cerbyd.



Ni all Dywedwch wrthym Unwaith ddelio â gwerthu cerbydau na newid manylion.




Mae angen i chi gysylltu â'r DVLA am hyn neu os ydych chi am gadw'r cerbyd.

Bydd angen trethu'r cerbyd eto cyn i chi neu rywun arall ei yrru.



## Cynghorau lleol

Gallant ganslo Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth y Cyngor (a elwir weithiau'n Gymorth Treth Gyngor).



Gall cynghorau lleol hefyd ganslo Bathodyn Glas a rhoi gwybod i wasanaethau tai cyngor am yr hyn sydd wedi digwydd.

Gallant hefyd dynnu person oddi ar y gofrestr etholiadol.



Gall CThEF a DWP gysylltu â chi am dreth, budd-daliadau a hawliau'r unigolyn a fu farw, os bydd angen.



## Pwy arall fydd Dywedwch Wrthym Unwaith yn cysylltu â nhw



Gall Dywedwch Wrthym Unwaith yn gysylltu â chynlluniau pensiwn eraill y sector cyhoeddus fel eu bod yn canslo taliadau pensiwn yn y dyfodol.

### Mae'r rhain yn cynnwys:



- Fy Mhensiwn Gwasanaeth Sifil



- Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)



- Cynlluniau pensiwn ar gyfer staff y GIG, athrawon, yr heddlu a diffoddwyr tân yn yr Alban

Cynlluniau  
Pensiwn  
Awdurdodau  
Lleol

- Cynlluniau pensiwn awdurdodau lleol.

Cynllun  
Pensiwn y  
Lluoedd  
Arfog

Cynllun  
Pensiwn  
Rhyfel

Cynllun  
lawndal y  
Lluoedd  
Arfog

Cyn-filwyr y DU.

Gallant ganslo taliadau gan:

- Cynllun Pensiwn y Lluoedd Arfog
- Cynllun Pensiwn Rhyfel
- Cynllun lawndal y Lluoedd Arfog.



Mae Veterans UK yn sefydliad o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn ac yn bersonél y gwasanaeth cymorth, cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Gallant hefyd yn gwirio a ellir gwneud unrhyw daliadau i ddibynnydd.



### Egluro beth yw dibynnydd

Gall dibynnydd fod yn blentyn, priod neu bartner sifil yr unigolyn a fu farw.



Mae yna broses wahanol i ddiweddarw cofnodion eiddo os oedd y person a fu farw yn berchen ar dir neu eiddo.

Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk/update-property-records-someone-dies](http://www.gov.uk/update-property-records-someone-dies)

## Pwy na fydd Dywedwch Wrthym Unwaith yn cysylltu â nhw




Pan fydd aelod o'ch teulu neu ffrind yn marw, bydd angen i chi gysylltu â'u:

- banc neu gymdeithas adeiladu
- darparwyr pensiwn ac yswiriant preifat
- cwmnïau cyfleustodau.



Bydd angen i chi hefyd gysylltu â Thrwyddedu Teledu.



Mae hyn er mwyn i'r sefydliadau hyn gau neu newid manylion cyfrif yr unigolyn.


# 3

## Cyn i chi ddefnyddio Dywedwch Wrthym Unwaith



Mae angen i chi gael rhywfaint o wybodaeth am y person a fu farw cyn i chi ddefnyddio Dywedwch wrthym Unwaith.

Mae hyn yn cynnwys eu:



- Dyddiad geni



- Rhif Yswiriant Gwladol







- Y dyddiad y buon nhw farw.

Bydd angen i chi hefyd gael:



Manylion personol eu **prïod** neu bartner, os oedd ganddyn nhw un.

Mae hyn yn cynnwys eu henw, cyfeiriad, rhif ffôn, rhif Yswiriant Gwladol a dyddiad geni.


?

Egluro beth yw prïod

Prïod person yw eu gwr neu wraig.




Manylion personol aelod o'r teulu.  
Byddai hyn pe na bai gan y person  
a fu farw briod na phartner sifil.



Manylion unrhyw fudd-daliadau  
a gawsant neu y gallent eu cael.  
Gallai Pensiwn y Wladwriaeth fod  
yn un enghraifft.



Manylion unrhyw wasanaethau cyngor  
lleol a gawsant neu y gallent eu cael.  
Gallai Bathodyn Glas fod yn un  
enghraifft.



Manylion cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus neu'r lluoedd arfog yr oeddent yn eu cael neu'n talu iddynt.



Caniatâd i rannu unrhyw fanylion am unrhyw un o'r bobl rydych yn cael y wybodaeth ganddyn nhw.

# 4

## Defnyddio Dywedwch Wrthym Unwaith



Pan fydd aelod o'r teulu neu ffrind yn marw, mae angen cofrestru eu marwolaeth.



Rhaid i chi wneud hyn o fewn:

- 5 diwrnod yng Nghymru a Lloegr
- 8 diwrnod yn yr Alban.



Pan fyddwch chi'n cofrestru'r farwolaeth, byddwch chi'n siarad â chofrestrydd.

Byddant yn darparu tystysgrif marwolaeth i chi.



Bydd cofrestryddion yn dweud wrthyich sut i ddefnyddio'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith.



Byddant naill ai'n:

- Cwblhau y gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith gyda chi
- Rhoi cyfeirnod i chi fel y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth eich hun.

**Rhif Cyfeirnod  
Unigryw:**

**0123456789**



Mae'r cyfeirnod hwn yn unigryw.

Mae hyn yn golygu mai hwn yw'r unig un tebyg iddo.



Bydd angen y cyfeirnod arnoch i ddefnyddio'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith.



Rhaid i chi ddefnyddio'r rhif hwn o fewn 28 diwrnod o'i gael.

Y peth gorau yw ei ddefnyddio cyn gynted ag y gallwch.



Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein trwy [www.gov.uk/cymraeg](http://www.gov.uk/cymraeg) neu dros y ffôn.






Os na allwch glywed na siarad dros y ffôn, gallwch ddefnyddio **Relay UK**.

Bydd y cofrestrydd yn rhoi'r rhif hwn i chi.




Os ydych chi'n fyddar ac yn defnyddio laith Arwyddion Prydain efallai y gallwch chi ddefnyddio'r **Gwasanaeth Cyfnewid Fideo** (a elwir yn VRS).

**Os na allwch gofrestru marwolaeth aelod o'r teulu neu ffrind**



Efallai na fyddwch yn gallu cofrestru marwolaeth.



Gall hyn fod oherwydd bod **cwest** am farwolaeth aelod o'ch teulu neu ffrind.

?

### Egluro beth yw cwest

Mae **cwest** yn digwydd pan fydd angen i grwner ddarganfod sut y bu farw person ac efallai nad oedd o achosion naturiol.



Os bydd hyn yn digwydd, gallwch gael tystysgrif marwolaeth dros dro gan y crwner.

Bydd hyn yn eich galluogi i ddefnyddio Dywedwch Wrthym Unwaith i gael cyfeirnod.

Am fwy o wybodaeth, ewch i

[www.gov.uk/after-a-death/organisations-you-need-to-contact-and-tell-us-once](http://www.gov.uk/after-a-death/organisations-you-need-to-contact-and-tell-us-once)

I gael mwy o wybodaeth am ddweud wrth sefydliadau eich hun, ewch i

[www.gov.uk/after-a-death/tax-benefits-vehicles](http://www.gov.uk/after-a-death/tax-benefits-vehicles)

I gael mwy o wybodaeth am beth i'w wneud pan fydd rhywun yn marw, ewch i

[www.gov.uk/when-someone-dies](http://www.gov.uk/when-someone-dies)